Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Gweithredwch rŵan

Gwynedd ac Ynys Môn sydd â'r cyfraddau uchaf o coronafeirws yng Nghymru. Gyda'r amrywiad Omicron yn lledaenu'n gyflym, rŵan ydi'r amser i weithredu ac amddiffyn eich busnes a'r gymuned gyfan. I weld y wybodaeth ddiweddaraf am nifer yr achosion coronafeirws ewch i:

https://tabsoft.co/3s7F8eW

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei nod o gynnig brechiad atgyfnerthu i bob oedolyn cymwys yng Nghymru erbyn diwedd mis Rhagfyr. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/prif-weinidog-cymru-mark-drakeford-yn-gosod-nod-uchelgeisol-i-gynnig-apwyntiad-pigiad-atgyfnerthu-i

Gallwch helpu trwy annog eich staff i gael eu brechu a chaniatáu amser i ffwrdd iddynt fynd i'w hapwyntiad. Am y diweddaraf, ewch i:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/

Sicrhewch eich bod yn gwneud popeth o fewn eich gallu i leihau lledaenaid y feirws trwy adolygu eich asesiad risg coronafeirws, sy'n ofyniad cyfreithiol, a gweithredu pob mesur rhesymol i leihau'r risg. Rhowch sylw arbennig i ymbellhau cymdeithasol, awyru, hylendid dwylo da a gwisgo mwgwd (gan gynnwys mewn tafarndai a bwytai pan nad yn bwyta nac yfed). Am ganllawiau ar baratoi asesiad risg, ewch i:

https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol ar gyfer nifer o sectorau ar gael yn:

https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

Bydd newid i reoliadau Pàs COVID 15 Rhagfyr 2021 yn dod i rym yfory, 15 Rhagfyr 2021, gan gynnwys dileu imiwnedd naturiol fel ffordd o gael pàs COVID. Mae'r diweddaraf ar gael ar:

https://llyw.cymru/defnyddio-pas-covid-y-gig-i-fynd-i-ddigwyddiadau-mawr-lleoliadau

Gellir lawrlwytho posteri, delweddau a fideos i hyrwyddo ac esbonio Pàs COVID y GIG yma:

https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-pecyn-hyrwyddo

Bydd y Rheoliadau Coronafeirws yn cael eu hadolygu eto ddiwedd yr wythnos. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen y Bwletin Busnes nesaf i gael gwybodaeth am unrhyw newidiadau.

# ARIANNU: £1 filiwn i gefnogi 500 o bobl ddi-waith i ddechrau busnes

Mae Llywodraeth Cymru yn yn lansio cronfa gwerth £1 miliwn i gefnogi hyd at 500 o bobl ddi-waith a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddechrau eu busnes eu hunain. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/1-filiwn-i-gefnogi-500-o-bobl-ddi-waith-i-ddechrau-busnes

# ARIANNU: The Circular Future Fund: Yr Her Miliwn o Bunnoedd

Mewn partneriaeth â Hubbub, mae Partneriaeth John Lewis yn lansio cronfa gwerth £1 miliwn i gefnogi syniadau chwyldroadol ac arloesol a all gyflymu'r pontio tuag at economi fwy cylchol. Mae grantiau o rhwng £150,000 a £300,000 ar gael, a gall Elusennau, Cyrff Academaidd, Mentrau Cymdeithasol a chwmnïau cofrestredig llai na 5 oed ymgeisio. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.circularfuturefund.co.uk/about

# ARIANNU: Cronfa'r Sector Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru (WIITF)

Mae Cronfa'r Sector Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru wedi agor, ac wedi'i dargedu at Gwmnïau Rheoli Cyrchfan, trefnwyr teithiau rhyngwladol â Chymru, tywyswyr proffesiynol i dwristiaid ac ysgolion dysgu Saesneg achrededig sydd wedi'u lleoli ac yn gweithredu yng Nghymru. Bydd y dyfarniadau am isafswm o £3,000 i uchafswm o £50,000. I ddarganfod mwy, ewch i newyddlen 10 Rhagfyr 2021 Croeso Cymru ar:

https://bit.ly/NewCroesoCymru10Rhag2021

# BREXIT: Mewnforio, allforio ac ehangu yn llwyddiannus dramor

O 1 Ionawr 2022 ymlaen, bydd angen i fusnesau sy'n symud nwyddau rhwng y DU a'r UE wneud datganiadau tollau. Mae Enterprise Nation wedi lansio Canolfan Fasnach Ryngwladol newydd er mwyn helpu busnesau bach. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.enterprisenation.com/internationaltradehub/

# AMAETHYDDIAETH: Ffliw adar – y diweddaraf

Gellir gweld y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch yr achosion o Ffliw adar a'r mesurau sy'n ofynnol i gadw'r achosion o dan reolaeth yn:

https://llyw.cymru/ffliw-adar-y-diweddaraf

# TRETH: Cwsmeriaid hunanasesu yn defnyddio cynlluniau talu misol i dalu £46 miliwn mewn treth

Mae mwy na 20,000 o gwsmeriaid Hunanasesu wedi defnyddio gwasanaeth cynllun talu misol ar-lein Cyllid a Thollau EM (HMRC) ers mis Ebrill i ledaenu cost eu bil treth. Mae mwy am hyn ar:

https://bit.ly/3dPetLK

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru